CYMDEITHAS ddiwydiannol, Gymreigaidd oedd yn Nhredegar, nad yw ond rhyw ddwy filltir o Barc Bryn Bach, pan oeddwn i'n blentyn. Gellid dweud ei bod yn dref fach hunan-gynhaliol, ffyniannus. Petaech yn siopa am fwyd yr oedd yna'r Maypole, Liptons, Home and Colonial, Price the Circle a Phillips the Bacon Specialist.

Petaech yn chwilio am ddillad yr oedd yno Harvey's a werthai ddillad dynion a menywod, ac Esther's a Bernsteins ar gyfer dillad plant, ac Olivers a Roberts am esgidiau.

Yr oedd y genhedlaeth hŷn yn dal i gael menyn, wyau a ffowls o'r wlad. Ar ddydd Sadwrn, yr hen ddiwrnod pai traddodiadol, byddai ffermwyr yn dod ar gefn ceffyl neu ar droed yn wreiddiol a basged fawr o'u cynnyrch i werthu o dŷ i dŷ.

Yr oedd nifer ohonynt yn dod a byddai pob un yn cadw at ei gymdogaeth, a neb yn tresmasu ar gymdogaeth y llall. Prynai fy hen fodryb gan Billy Evans y Dyffryn (Dyffryn Crawnon) a theulu Nhad gan Mrs Roderick, Llangynidr.

Eto yr oedd un siop a oedd yn nes at galon y bobl na'r rhain i gyd, sef, y Co-op. Ni wyddai neb sut i iawn ynganu'r gair; Y Cop oedd y ffefryn, yr oedd y rhai oedd yn anelu'n uwch yn sôn am y Cwop, a'r bobl ddŵad yn sôn am y Co-op. Gwerthai honno bopeth ond gras a blacin gwyn. Fy mam oedd y gyntaf o'n teulu ni i siopa yno er gwaethaf gwawd ei thad a'i brodyr.

Siop y gweithiwr cyffredin oedd y Co-op yn eu golwg nhw ac mae'n rhaid eu bod nhw'n teimlo eu bod yn deulu gwell na'i gilydd. Ond yr oedd crechwenau ei theulu yn ddim i fy mam o'u cymharu â'r gobaith am y *divi (dividend)* ar ddiwedd y chwarter.

Yr oedd dwy ffordd o dalu gan y Co-op; telid am fwyd a dillad ar lyfr siop ond yn hytrach na thalu dyn y bara a dyn y llaeth wrth y drws yr oedd gan y Gymdeithas drefn o brynu sieciau; sieciau peint a hanner peint, torth fawr a thorth fach ag arnynt dalfyriad o'r geiriau Tredegar Industrial and Provident Society. Yr oedd y siec fara yn grwn a'r siec laeth yn hirgrwn â thwll mawr yn y canol

* * *

ATGYFODI hen arfer yn yr ardaloedd hyn a wnâi'r Gymdeithas wrth gynhyrchu sieciau. Cynhyrchu tocynnau a wnaeth yr hen feistri haearn i'w defnyddio yn lle arian y goron. Cylchrediad daearyddol gyfyng oedd i'r rhain: Siop y Cwmni, tafarnau a busnesau eraill y dref yn unig a fyddai'n eu cyfnewid am nwyddau.

# MARY WILIAM a gwerthoedd
# Yr hen arian hen yna






Cynhyrchwyd tocynnau ar raddfa fawr mewn tri gwahanol gyfnod. Yr oedd teyrnasiad Elisabeth I yn gyfnod masnachol ffyniannus iawn. Yr oedd y bathdy brenhinol wedi cynyddu eu cynnyrch o arian gwyn i gwrdd â'r galw o du busnes ond yr oedd gwir angen am arian mân i roi fel newid. Byddai arian copor wedi gwneud y tro ond teimlid mai sarhad ar y brenin fyddai rhoi delw o'i ben ar fetel mor wael.

Ceisiodd James I gyflenwi'r angen trwy ganiatau patent, ond i'w gynffonwyr yn unig y rhoddwyd ef. Ni fu'r werin elwach o'r fentr, yr unig enillwyr oedd y brenin a'i gyfeillion.

Yn fuan wedyn, dechreuodd tafarnwyr a masnachwyr gynhyrchu eu tocynnau eu hunain er mwyn cwrdd â'r angen am newid mân; gwerth ffyrllin, dimai a cheiniog oedd y rhain a'r mwyafrif ohonynt yn ddimeiau a ffyrllinau.

Y ddau gyfnod nesaf oedd 1787-1797 a 1811-1817. Yn y cyfnod cyntaf yr oedd y galw yn fach ac aeth masnachwyr bach ati i'w gyflenwi. Erbyn hyn, yr oedd y diwydiannau mawr wedi dechrau ac yr oedd yn rhaid iddynt gael arian mân i dalu eu gweithwyr. Y gweithfeydd copor a haearn, cynhyrchwyr brethyn, bractai a phyllau oedd y cyflogwyr mwyaf a hwy felly a benderfynodd gynhyrchu tocynnau at eu hanghenion eu hunain.

Yr oedd y Llywodraeth yn erbyn gweithredu ei hunan am fod pris copor yn anwadal, gallai fod yn ddrud iawn ac yr oedd ofn ar y Llywodraeth brynu gormod ohono, yr oedd hefyd yn fetel trwm i'w drin. Wedi'i drin a'i fathu, byddai'n rhaid dosbarthu'r arian ledled y wlad, ac nid oedd trefn ddosbarthu effeithiol yn bod ar y pryd.

* * *

Y CWMNI cyntaf i gynhyrchu tocynnau ar raddfa fawr oedd cwmni Thomas Williams, Cwmni Copor Mynydd Parys yn y ddeunawfed ganrif. Cynhyrchodd y cwmni 250 o dunelli ohonynt; ar un adeg cyflogid 2000 o weithwyr yno felly yr oedd angen yr arian mân arnynt.

Yr oedd cylchrediad daearyddol y tocynnau hyn yn eang. Yn 1789, dywedodd ynadon tref Stockport mai'r unig docynnau derbyniol yn y dref oedd rhai cwmni sir Fôn.

Fe'u bathwyd gan fathwr arian gorau'r cyfnod, Matthew Boulton; yr oeddynt o bwysau a gwneuthuriad da, ac o'r herwydd yn debyg o bara'n dda. Yr oeddynt hefyd yn hardd.

Ar y tocynnau a ystyrir yn gasgladwy heddiw, fel arfer mae llun nodweddiadol o'r diwydiant ar un wyneb, ac enw'r cwmni ar y gwrthwyneb.

Ar docynnau Mynydd Parys, ar y wyneb mae pen derwydd a chwfl yn cuddio ei ben, a thorch o dderw yn ei amgylchu; ar y gwrthwyneb, mae priflythrennau enw'r cwmni, 'PMCo' a'r geiriau, 'We promise to pay the bearer one penny' a'r dyddiad, 1787 neu 1788. Ar hyd yr ymyl, y mae 'On demand in London Liverpool or Anglesey'. Copïo mentr cwmni copor Môn a wnaeth y cwmnïau eraill i gyd.

Yr oedd y mwyafrif o'r cwmnïau copor a'u pencadlys ym Mirmingham, ond câi'r gwaith o doddi'r copor ei wneud yng Nghymru felly gwelir cyplysu enw Birmingham ag enw lle yng Nghymru ar lawer o docynnau.

Yr oedd y *Birmingham Mining and Copper Company* yn nodweddiadol o hyn. Yn 1790, yr oedd ei fwyngloddiau yn Redruth yng Nghernyw, ei doddfeydd yn Abertawe, a gwerthwyd ei gynnyrch ym Mirmingham: enwyd y tri lle ar ymyl y tocyn.

* * *

DIGWYDDAI'r un peth gyda'r *Birmingham and Risca Copper Company*. Câi ei adnabod hefyd fel y *Risca Union Copper Company*. Mae'r tocyn sy'n dwyn yr enw olaf hwn yn brin. Dengys olygfa o'r gwaith copor ag un simnai ar ddeg.

Agorwyd y ffowndri hwn yn 1807 ac fe'i caewyd ddeng mlynedd yn ddiweddarach mewn cyfnod o ddirwasgiad. Mae'r Rose Copper Company yn cyplysu 'Birmingham and Swansea', a'r Crown Copper Company 'Birmingham and Neath'.

Gwnaethpwyd miloedd o ffugiadau o'r tocynnau hyn gan ddefnyddio enwau cwmnïau ffug. Ni fu'r Birmingham and South Wales Company erioed yn bod ond ar ffugiadau. Gelwid y dimeiau ffug yn *brummagens*.

Tocyn casgladwy o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oherwydd ceinder a manylder ei waith dylunio yw un Gwaith Haearn Caerfyrddin. Ar y wyneb, dengys ddynion wrth eu gwaith yn y ffwrnais a'r geiriau 'Carmarthen Ironworks'. Ar y gwrthwyneb, mae llun o'r efail a morthwyl gogwydd uwchben yr eingion a'r geiriau 'Kidwelly Whitland Blackpool and Cwmdwyfron Forges' a 'J Morgan'. Yr oedd Mr Morgan yn feistr Haearn ac yn fancwr.

Fy mwriad wrth fynd i'r afael â hanes tocynnau oedd sôn amdanynt yng nghyd-destun gweithfeydd haearn blaenau'r cymoedd. Yr oedd tocyn yn dwyn y geiriau 'Tredegar Company One Penny Token 1812' mewn cylchrediad. Ni welais gyfeiriad at rai tebyg iddynt yn y llyfrau safonol ar docynnau masnach. Sôn am y rhai a oroesodd am eu bod yn ddigon trwm i wrthsefyll traul a wnânt ac sydd felly o werth i gasglwyr heddiw.

Yr hyn sy'n ddiddorol i mi yw fod sieciau neu docynnau mewn cylchrediad unwaith eto yn y cymoedd. Pan fydd y clybiau cymdeithasol yn rhoi anrhegion Nadolig i'w haelodau, gwerth hyn a hyn o sieciau a gânt i'w cyfnewid am ddiod yn y Clwb hwnnw.


Llyfrau Ail-law a Hynafol
Cyfrolau o Ddiddordeb Cymreig
Parod i Brynu Llyfrau Ail-law
Llun i Sadwrn 10 a.m. i 6 p.m.
**C.N. & E.J. Moore**
**CASTLE BOOKSHOP**
**Castle Street, Holt, Clwyd, LL13 9YW. Ffôn: Farndon (0829) 270382**
CASTLE · BOOKSHOP
HOLT · CLWYD